Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Genus Education

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2017**

## Cyd-destun

Mae Genus Education wedi ei chofrestru'n ysgol annibynnol i ddarparu addysg fewnol i blant sy'n byw ym mhedwar cartref y cwmni i blant nad ydynt yn gallu manteisio ar addysg brif ffrwd. Mae gan bob cartref ei ystafelloedd dosbarth ei hun.

Agorodd yr ysgol yn gyntaf yn Chwefror 2011, gan weithredu ar safle Ynys-y-Bwt yn unig. Sefydlodd y cwmni ystafell ddosbarth yn Knowle House yn 2012, yn Station Cottage yn 2013 ac un arall yn Skirrid View yn 2016.

Mae Pennaeth Addysg yn goruchwylio'r addysg ar draws y pedwar safle. Mae'r safleoedd yn rhannu dogfennau cyffredin sy'n cynnwys polisïau ysgol, cynllun datblygu a threfniadau ar gyfer asesu, cynllunio a chyflwyno gwersi. Mae gan bob ystafell ddosbarth athro/athrawes amser llawn.

Mae'r ysgol yn cynnig addysg amser llawn ac yn dilyn amseroedd tymhorau'r awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu gofalgar a chefnogol ble mae gan staff a disgyblion berthnasoedd gweithio da. Mae staff yn darparu'n dda iawn ar gyfer anghenion disgyblion unigol. Mae athrawon yn cynllunio llwybrau dysgu unigol sy'n bodloni anghenion canfyddadwy disgyblion yn dda. O ganlyniad, dros gyfnod, mae disgyblion yn gwella eu hymgysylltiad â dysgu ac yn gwneud cynnydd da o ran datblygu medrau academaidd a chymdeithasol. Mae disgyblion yn falch o'u cyflawniadau.

Ceir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at wneud penderfyniadau. Mae disgyblion yn rhoi adborth rheolaidd i staff ar ba mor dda y maent wedi cwblhau tasgau a'r hyn y maent eisiau ei gyflawni o'r cyrsiau y maent yn eu dilyn. Mae hyn yn helpu disgyblion i wella eu medrau cyfathrebu, eu hyder a'u hunan-barch.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad craidd yn 2016. Mae arweinwyr wedi cryfhau trefniadau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Erbyn hyn, mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau staff a disgyblion. Mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn rhoi mesur cywir o gryfderau'r ysgol, a'r meysydd i'w gwella.

Mae ystafelloedd dosbarth ar bob un o'r safleoedd yn darparu amgylcheddau dysgu pwrpasol, sy'n cynnwys adnoddau da. Gwna disgyblion ddefnydd da o'r tir ar gyfer hamdden ac i ddatblygu medrau gwerthfawr yn gysylltiedig â gwaith.

### Meysydd i'w datblygu

Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wna disgyblion ar bob safle. Fodd bynnag, ni chaiff yr arfer dda a nodwyd trwy hunanarfarnu ei roi at ei gilydd mewn adroddiad ysgol gyfan, ac nid yw prosesau ar gyfer rhannu arfer dda ar draws yr ysgol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod eang o gymwysterau lefel mynediad gwerthfawr ar gyfer disgyblion mewn medrau academaidd a chymdeithasol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae cynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion uwchlaw lefel mynediad.

**Argymhellion**

A1 Parhau i ymgorffori gweithdrefnau hunanarfarnu a rhannu arfer orau yn effeithiol ar draws safleoedd

A2 Ehangu ystod a lefel y cymwysterau sydd ar gael

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn cynnwys targedau dysgu penodol sy'n dangos camau bach o gynnydd y gellir eu hadolygu'n effeithiol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi mireinio'i fformat ar gyfer cynlluniau addysg unigol (CAUau). Erbyn hyn, mae'r CAUau yn cynnwys targedau presenoldeb, ymddygiad, llythrennedd a rhifedd. Adolygir y rhain yn rheolaidd, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir. Yn gyffredinol, mae CAUau yn nodi targedau dyheadol ar gyfer disgyblion, sy'n gweddu'n dda i'w hanghenion a'u galluoedd. Fodd bynnag, mewn rhai CAUau, nid yw'r targedau bob amser yn dangos camau bach o gynnydd a wna disgyblion yn ddigon da. Mae cydlynydd yr ysgol ar gyfer CAUau yn sicrhau bod yna ddull cyson o osod targedau a mesur cynnydd ar draws pob safle. Mae'r ysgol yn cynnwys disgyblion mewn datblygu ac adolygu targedau CAU wythnosol yn dda. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau myfyrio ar eu cynnydd a'u cyflawniadau eu hunain ers dechrau yn yr ysgol.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn canolbwyntio'n gliriach ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, ac ansawdd yr addysgu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad craidd yn Chwefror 2016, mae'r ysgol wedi adolygu a gwella'i threfniadau sicrhau ansawdd. Mae'r ysgol wedi rhoi gweithdrefnau newydd ar waith ar gyfer casglu tystiolaeth uniongyrchol ar ansawdd yr addysgu, a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion trwy arsylwadau gwersi rheolaidd, a chraffu ar waith disgyblion. Caiff gwybodaeth o'r gweithgareddau hyn ei rhannu'n briodol gyda staff ym mhob lleoliad ac mae'n llywio targedau datblygiad proffesiynol ar gyfer staff unigol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi dwyn canfyddiadau'r gweithgareddau hyn ynghyd i ffurfio barn ar ansawdd cyffredinol yr addysgu. Nid yw trefniadau i rannu'r arfer dda mewn addysgu a dysgu ar draws y pedwar safle wedi'u datblygu'n ddigonol.

**Argymhelliad 3: Gwella prosesau hunanarfarnu i sicrhau bod y rhain yn cysylltu'n fwy effeithiol â chynllunio gwelliant yr ysgol a datblygiad staff**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu yn gwneud defnydd priodol o safbwyntiau prif randdeiliaid, gan gynnwys staff a disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol. Mae cynllun gwella'r ysgol yn nodi saith maes blaenoriaeth i'w datblygu. Mae'n rhoi manylion ar y targedau, y strategaethau, yr adnoddau a'r graddfeydd amser a neilltuir i fynd i'r afael â phob blaenoriaeth. Mae blaenoriaethau'n cynnwys ffocws priodol ar wella medrau ysgrifennu a meddwl disgyblion, ac ansawdd yr addysgu.

Mae llawer o'r targedau yn y cynllun gwella yn cysylltu'n dda â chanfyddiadau'r gweithgareddau hunanarfarnu. Mae cyswllt clir erbyn hyn rhwng deilliannau hunanarfarnu, y blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol ac yn hyfforddiant a datblygiad staff.

**Argymhelliad 4: Mesur effaith gwaith partneriaeth ar gyflawniadau a deilliannau dysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae athrawon wedi meithrin partneriaethau defnyddiol gydag ystod eang o ddarparwyr sy'n cael effaith gadarnhaol ar wella dysgu disgyblion a'u medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd. Mae athrawon yn cynllunio'r partneriaethau hyn yn ofalus ac yn arfarnu effaith y partneriaethau hyn ar gynnydd disgyblion yn rheolaidd. Er enghraifft, mae lleoliadau profiad gwaith a chysylltiadau â'r ysgol arbennig leol yn gwella profiadau dysgu disgyblion yn dda.

Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r arfer o weithio mewn partneriaeth strategol i wella datblygiad proffesiynol staff. O ganlyniad, nid yw'r ysgol gyfan bob amser yn elwa ar yr ystod eang o bartneriaid sy'n gweithio gydag athrawon ar wahanol safleoedd.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Genus Education |
| **Rhif yr ysgol** | 6726091 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 22/05/2017 |
| **Perchennog** | Gareth Hemming a Mark Khan |
| **Staff** | 1 pennaeth addysg, 4 athro amser llawn parhaol sy'n cael eu cynorthwyo gan weithwyr gofal preswyl yn yr ystafell ddosbarth yn unol â disgresiwn yr athro, neu pan fydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer asesiad risg neu ddatganiadau |
| **Nifer y disgyblion** | 2 ddisgybl yn Knowle House, 2 ddisgybl yn Station Cottage, 2 ddisgybl yn Ynys-y-Bwt , 1 disgybl yn Skirrid View |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd ar gyfer disgyblion yng nghartrefi plant y cwmni |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/02/2016 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 02/03/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 21/11/2016 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Tîm |